

Llais y Llan Chwefror 2015

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Mawrth 2015

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilfford pob Nos Fercher 253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30

Chwefror 11 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Chwefror 14 Dydd Sadwrn 10 – 12 Bore Coffi Neuadd San Pedr Caerfyddin

Chwefror 20 Dydd Gwener 50ain Diwrnod Pen-blwydd Rheilfford Gwili

Chwefror 20 –22 Penwythnos Garddio 10.30 – 4.00 Neuadd Tyssul Llandysul

Chwefror 20 Nos Wener 7.00 Noson Cilddwrn Elusennol yn Nhafarn y Rheilffordd

Chwefror 20 Nos Wener 7.30 Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Chymdeithas y Rhandiroedd Neuadd Goffa

Chwefror 22 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru, Neuadd Bronwydd

Chwefror 22 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelyn Bronwydd

Chwefror 23 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Chwefror 26 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilfford

Chwefror 28 Nos Sadwrn 7.30 'Swing Boyz' Neuadd Goffa

Mawrth 3 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mawrth 7 Dydd Sadwrn 10.30 Gasglu Sbwriel Neuadd Goffa

Mawrth 11 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mawrth 12 Dydd Iau 1.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mawrth 13 Nos Wener Digwyddiad Codi Arian ar Gyfer Eglwys

Mawrth 19 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilfford

Mawrth 22 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru, Neuadd Bronwydd

Mawrth 22 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelyn Bronwydd

Mawrth 23 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Mawrth 28 Dydd Sadwrn 7.30 Clive Edwards Neuadd Goffa

Mawrth 29 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru, Neuadd Bronwydd

Mawrth 29 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelyn Bronwydd

Ebrill 3 – 6 ‘Easter Bunny’ Rheilffordd Gwili

Ebrill 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Ebrill 11 Dydd Sadwrn 11.15 Cerdded Solva

Ebrill 15 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ebrill 16 Nos Iau 7.30 Côr Llanpumsaint Eglwys Christ Caerfyrddin

Ebrill 17 Nos Wener Cyngerdd Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Ebrill 22 Nos Fercher Sioe Ffasiwn Neuadd Goffa

Ebrill 23 Nos Iau 8.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilfford

Ebrill 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru, Neuadd Bronwydd

Ebrill 26 Nos Sul 8.00 Cwis Tafarn Nantcelyn Bronwydd

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

I logi'r Neuadd Goffa, ffoninwch Arwel Nicholas ar 01267 281365

Llanpumsaint Cynaliadwy a Chymdeithas y Rhandiroedd

Fe fydd y Cyfarfod Blynnyddol o'r uchod yn cael ei gynnal yn y Neuadd Goffa ar Chwefror 20ed am 7.30 yr hwyr.

Gobeithir am gefnogaeth deilwng. Mae yn gyfle i dalu eich tanysgrifad blynnyddol ond hefyd i gael sgwrs am syniadau ar gyfer y tymor nesaf. Os oes unrhyw un eisiau gwneud rhywbeth ond ddim yn gwybod sut, neu eisiau cymorth gyda rhywbeth, dyma eich siawns. Os ydych yn meddwl am gael rhandir yna dewch i gwrdd a'r aelodau presennol ac i glywed sut y gallwch ymaelodi.

Os oes eraill yn y gymuned sydd â diddordeb mewn garddio neu materion cynaliadwy, cysylltwch gyda Bob Conyard (01267 253119) neu Philip Jones (01267 253512).

Côr Llanpumsaint a'r Cylch

Ar ôl seibiant haeddianol dros y Nadolig mae'r côr yn awr wedi ail ddechrau ymarfer yn y Neuadd Gymunedol yng Nghynwyl Elfed. Ar hyn o bryd yr ydym yn paratoi i roi perfformiad o “Olivet to Calvary” gan J.H.Mauder. Fydd y perfformiad hwn yn cael ei gynnal yn Eglwys Crist yng Nghaerfyrddin ar nos Iau, Ebrill 16 2015 am 7.30 yr hwyr. Manylion pellach i ddilyn.

Bydd yr elw yn mynd tuag at elusen ddewisiedig.

Ar hyn o bryd mae bron bod 60 o aelodau yn y côr ond os oes diddordeb gennych i ymaelodi cysylltwch a'r Arweinydd Gwyn Nicholas ar 01267 253686 neu unrhyw aelod o'r côr. Cewch groeso cynnes.

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Atgoffir darllenwyr Llais y Pentref am y noson gyda Clive Edwards ar nos Sadwrn Mawrth 28 2015 am 7.30y.h. Mae Clive yn ddifyrwr profiadol ac yn boblogaidd dros Gymru gyfan gyda'i ganu a'i jôcs. Ceir rhagor o wybodaeth yn fuan felly cadwch lygaid am y posteri.

Hefyd dyddiad i'ch dyddiaduron: Sioe Ffasiynau o dan ofal Nannette's o Gydweli yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher Ebrill 22ain 2015. Manylion pellach i ddilyn.

NOSON SIGLO YN Y NEUADD GOFFA

Noson o Fwyd da a Cherddoriaeth Byw

Mae'r "Swing Boyz" yn ôl yn y Neuadd ar nos Sadwrn Chwefror 28ain

Ffôn Ann / Barry 01559 389044, neu docynnau o'r siop.

Cymdeithas Lês ag Adloniant.

Fe gafodd ein gorymdaith Sion Corn eleni y tywydd gorau erioed. Fe ddaeth rhyw 40 ynghyd i ddilyn Santa a'i sled a chasglu dros £375 i Ambiwlans Awyr Cymru. Gorffenodd yr orymdaith fel arfer yn Nhafarn y Rheilffordd ble gafodd pawb fowlen o gawl twym i'w cynhesu. Dilynwyd hyn gan raffl a gwnaed elw o £78 ychwanegol tuag at yr elusen ddewisiedig. Ar ddechrau'r flwyddyn newydd fe gafodd y botel yn y bar ei gwacau a oedd yn cynnwys £300. Hyn i gyd yn rhoi cyfanswm o £750.00. Roedd y rhan fwyaf o'r arian yn y botel wedi cael eu rhoi gan aelodau o'r Clwb Cinio o'r elw a wnaed o raffl fisol – diolch o galon iddynt.

Mae ein diolch fel arfer i Jayne, Mike a Nick o Dafarn y Rheilffordd am eu cymorth parod ac hefyd am ddefnyddio "Grotto Santa"

Hefyd diolch i'r canlynnol - Martin Dickenson PCSO am ei gymorth a Ann Wyke a Carolyn Smethurst am ei cacennau ond mae'r diolch pennaf i Santa a'i yrrwr ac i bawb am eu cefnogaeth.

Parti Nos Galan.

Cynhaliwyd parti yn y Neuadd Goffa ar gyfer teuluoedd ifanc yr ardal er mwyn iddynt ddathlu dyfodiad 2015. Cafwyd cefnogaeth dda iawn ac yr oedd yn syndod sut oedd y rhai ifanca' yn medru cadw ar ddihun tan dros hanner nos. Y D.J. ardderchog oedd Mathew Evans a diolch hefyd i Steve Evans am ei bresenoldeb cyhyd gyda'i siop Pysgod a Sglodion. Dyn dewr iawn!

Clwb 100 Llanpumsaint

Enillwyr mis Ionawr o'r uchod sef yr olaf am y flwyddyn ariannol oedd y canlynnol:-

Gwobr 1af	£20	Rhif 53	Delyth Brown
Ail wobr	£10	Rhif 25	Nick Stoneman
Trydydd gwobr	£5	Rhif 29	Florrie Rees
Trydydd gwobr	£5	Rhif 82	Elsie Jones

Ni fydd gwobrau ym mis Chwefror a hyn er mwyn cwblhau y Daflen Ariannol Flynyddol a fydd yn cael ei danfon allan i bob aelod gyda gwahoddiad hefyd i ymuno am flwyddyn arall a fydd yn dechrau ym mis Mawrth.

Mae yna rai rhifau ar gael o hyd a byddai aelodau newydd yn dderbyniol iawn.

Mae'r elw yn mynd tuag at gynnal a chadw Cae Chwarae y Pentref.

Derick Lock, Trysorydd Clwb 100 01267 253254

Noson Stêc y Rheilffordd

Bydd Mike, Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x 10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win tŷ; am £25 y cwpwl. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i arhebu.

Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru

Digwyddiadau nesaf - Dydd Sul 22ain Chwefror - yr awdur ac ymchwilydd Robin Heath “ A guide to megalithic monuments in West Wales”.

Mae darogan yn grefft ddefnyddiol a diddorol gall bron unrhyw un eu dysgu. Dywed ei bod yn deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmnïau yn defnyddio doniau rhai daroganwyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, cebbau trydan ayyb. Mae rhai yn gwirio am straen daearegol yn ei amgylchedd; cred bersonol yw hyn sydd heb gael ei brofi yn wyddonol hyd yn hyn.

Pam na ddewch chi ddydd Sul i brofi am eich hun? Dewch i ymuno â ni yn Neuadd Bronwydd am 1.45 yp. Mae mynediad yn £4 y person gan gynnwys paned o de a bisgedi. Does dim offer yn angenrheidiol, dewch a'ch hunan. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Sandy: 253547

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Dechreuwyd 2015 ar Ionawr 3ydd gyda thaith o Dafarn y Rheilffordd tuag at Ffynnonhenri ag Esgair. Nid oedd y tywydd yn argoeli yn dda iawn ond fe wnaeth pethau wella ac yr oedd yn bleser cael gweld y golygfeydd godidog ar hyd y daith. Ar ôl 7 milltir yr oeddem yn barod am fwyd pan gyrhaeddasm yn ôl i Dafarn y Rheilffordd. Ar ôl bwyta cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynnyddol. Fe fydd Mike Richardson yn parhau fel Cadeirydd gyda Sandy Mather fel Trysorydd a Carolyn Smethurst fel Ysgrifennydd. Trafodwyd y teithiau am 2015 – maent fel arfer rhyw 5 milltir ac yn hawdd neu yn ganolig. Rydym wedi cael ein llys-enwi fel “ Y Loetranwyr” gan fod y sgwrsio a'r golygfeydd mor bwysig a'r cerdded!

Ar Mawrth 7ed trefnir i gasglu sbwriel o amgylch y pentref. Y llynedd casglwyd tua 10 sach o sbwriel ond mae angen rhagor o wirfoddolwyr eleni oherwydd bod sefyllfa sbwriel yn gwaethygu ac y mae yn ofynnol i ni gasglu nid yn unig ar yr heolydd o amgylch y pentref ond yn ardaloedd Ffynnonhenri, Nebo a Graig hefyd. Tair blwydd oed oedd ein casglwr ifanca' y llynedd ac fe wnaeth ei waith yn dda iawn felly mae yn bosibl i hwn fod yn ddigwyddiad teuluol. Darperir sachau du a phob peth arall fydd yn anghenrheidiol. Bydd menig hefyd ar gael ond falle hoffech chi ddod a rhai eich hunan. Byddwn yn cwrdd yn y Neuadd Goffa am 10.30y.b. a bydd croeso cynnes i bawb.

Ar Ebrill 11 2015 byddwn yn cerdded ar hyd yr arfordir o Dyddewi, heibio Porth Clais a Chapel y Santes Non i Solfach. Byddwn yn parcio yn maes parcio yr harbwr yn Solfach sydd yn daith o 44 milltir o Lanpumsaint felly fydd eisiau dros awr arnoch i deithio yno. Bydd y bws i Dyddewi yn gadael am 11.30y.b. a wedyn fe fyddwn yn cerdded yn ôl i Solfach. Mae'n daith hir felly bydd yn ofynnol i chi ddod a bwyd gyda chi i fwyta ar y ffordd, mwy na thebyg yn harbwr Porth Clais.

Rhowch wybod i Carolyn Smethurst os ydych yn bwriadu dod ar un o rain - 253308

Clinig Gofal Traed

Y newyddion day w bod ein ciropodydd rheolaidd Gary Robinson yn masnachu fel ‘Head to Toes’ ac am ymweld â Llanpumsaint fel o’r blaen.

Dylai unrhyw gwsmeriaid newydd gysylltu â Gary ar unrhyw noson rhwng 6-8 y.h. ar 07789344488, a hefyd yn gwsmeriaid presennol sydd eisiau siarad gydag ef.

Bydd y clinig nesaf ar ddydd Iau y 12fed o Mawrth.

Cyngor Bro Llanpumsaint

Phillip Jones, Clerc, 01267 253512, neu philkto@yahoo.co.uk

www.llanpumsaint.org.uk/llanpumsaintcommunitycouncil

Clwb Gwili 60+Bronwydd

Dechreuwyd y flwyddyn newydd gyda chyfarfod ar ddiwedd mis Ionawr. Roedd llawer yn bresennol a’r siaradwr gwadd oedd Mr Jeremy John a chafwyd prynhawn diddorol iawn yn gwrando arno yn siarad am “Lofruddiaeth mewn Tŷ Gwledig”. Mae Mr John wedi bod gyda ni o’r blaen a ni chawsom ein siomi ganddo y tro hyn hefyd. Dilynwyd y sgwrs gan gyfarfod byr a the a bisgedi.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Llun, Chwefror 23 2015 pan fydd Mr Arwyn Thomas yn siarad ar “Derfysgoedd Beca.” Hefyd ar y diwrnod hwn byddwn yn dathlu Dydd Gwyl Dewi gyda chawl, bara brith a chacennau Cymreig. Gofynnir yn garedig i’r aelodau ddod a bowlen a llwy. Darperir y cawl gan Mr a Mrs Glyn Evans.

Ar ddydd Llun Mawrth 23 2015 bydd sgwrs ar Ddiogelwch Tân yn y Cartref ac hefyd Ail-gylchu. Mae’r pwylgor yn brysur ar hyn o bryd yn trefnu cyngerdd a bydd yn cael ei gynnal yn Neuadd Bronwydd ar nos Wener Ebrill 17 2015. Ceir manylion pellach eto. Hefyd ar Dachwedd 9 2015 gobeithir cael “Twrci a Thinsel”. Manylion pellach i ddilyn.

Os oes unrhyw un a awydd ymuno a’r clwb a fydddech cystal a chysylltu a’r Ysgrifennydd Mrs Val Giles ar 01267 281194 am fanylion. Tâl aelodaeth yw £5 y flwyddyn. Croeso cynnes i bawb.

Newyddion Eglwys y Plwyf

Mae Clwb Sul Eglwys Sant Celynin yn cwrdd yn y festri am 10.00 y bore yn ystod tymor ysgol.

Bydd y Clwb Ieuenciad yn cwrdd yn Ficerdy Llanpumsaint ar nos Wener Chwefror 27ain.

Mae Gwasanaeth Conffirmasiwn yn Eglwys Llanllawddog ar fore Sul Mawrth 8ed. Os hoffai unrhyw un gael ei gonffirmio gan yr Esgob yn y gwasanaeth a fydddech cystal a chysylltu a’r Ficer ar 01267 253205 er mwyn cofrestru yn y dosbarthiadau.

Mae Bore Coffi Plant Dewi yn cael ei gynnal yn Neuadd San Pedr yng Nghaerfyrddin ar Sadwrn Chwefror 14eg 2015 rhwng 10.00 y bore a hanner dydd. Os y medrwch gynorthwyo i lenwi cwpanau a melysion ar gyfer ein stondin a fydddech cystal a chysylltu a Glyn Williams ar 01267 253888.

Cynhelir gwasanaeth ar ddydd Mercher y Lludw am 10.30 y bore yn Eglwys Sant Celynin o dan ofal y Canon Aled Griffiths. Yr wyf yn ddiolchgar iddo am ei garedigrwydd gan y byddaf i ffwrdd ar y dyddiadau canlynnol:- Chwefror 16eg tan Chwefror 20ed. Gellir cysylltu a’r Canon

Aled Griffiths ar 01267 232849

Dyma fanylion am y gwasanaethau sydd ar yr hysbysfrudd y tu allan i’r Eglwys.

Neges oddiwrth Offeiriad y Plwyf

Mae llawer o fobl yn ystod mis Chwefror yn edrych ymlaen i wyllo Cystadleuaeth Rygbi y Chwech Gwlad gan obeithio y bydd Cymru yn curo pawb eleni eto. Mae'r gystadleuaeth hon ynglŷn a rhai dwsinau a fobl o chwech gwlad ond hefyd yn cael eu cefnogi gan filiynnau o fobl.

Mae llyfr y Datguddiad yn rhagweld amser pan fydd pobl o pob gwlad, llwyth a iaith yn addoli Iesu Grist a'i foli yn y nefoedd. Fe'n crewyd ni i bwrpas a'r pwrrpas hyn yw i addoli Duw ym mhob peth yr ydym yn eu wneud a dweud. Nid ar y Sul yn unig y dylsem addoli Duw ond ei gynnwys ym mhob agwedd o'n bywyd, sut yr ydym yn siarad, sut yr ydym yn trafod pobl a fel yr ydym yn dod a gwerthoedd Crist i fewn i'n gwaith a'n cartref. Bydded i Dduw ein cynorthwyo i fod yn wir addolwyr iddo ac hefyd i'w fab sef ein Harglwydd Iesu Grist.

Bendith Duw a fo arnoch Peter.

Mae manylion unrhyw wasanaethau arall ar hybysfwrdd yr eglwys.

www.llanpumsaintparish.org , 01267 253205 neu E-bost:- vicar@llanpumsaintparish.org

Capel Nebo Mi fydd yr oedfaon canlynol yn cael ei gynnal yng Nghapel Nebo:

Mawrth	1af Mr Lyndon Lloyd 10:30y.b 8fed Parch. Goronwy Wynne 2:00y.p 15fed Mr Gwyn Elfyn 2:00 y.p 29ain Parch Goronwy Evans 10:30 y.b
Ebrill	5ed Mrs Margaret Griffiths 2:00y.p 12fed Mr Dai Lloyd 10:30 y.b 19 Parch Goronwy Wynne 2:00 y.h.
Mai	3ydd Parch Goronwy Evans 10:30 y.b

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul:	10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg) 2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg
Dydd Mawrth	1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Peniel
Dydd Iau	2.00pm Cwrdd Gweddi
Rhifau Cyswllt	Mrs Eleri Morris 01267 253895

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanaethau am fis oedd Chwefror, Mawrth a Ebrill 2015

Chwefror 22 Gwasanaeth am 2.00 o'r gloch Mr. Gwyn Elfyn (Pobl y Cwm)

Gwasanaeth Unedebol Glannau Gwili

am 2.00 o'r gloch yn Ffynnonhenri

Mawrth 8 Cymundeb am 10.30 o'r gloch Parch Wyn Vittle

Mawrth 29 Gwasanaeth am 2.00 o'r gloch Mr. Arwyn Pearce

Sul y Pasg

Cymundeb Undebol ym Mhenybont

am 10.30 o'rgloch Parch Wyn Vittle

Ebrill 19 Gwasanaeth am 3.00 o'r gloch Parch Desmond Davies

Os am ragor o fanylion cysylltwch a Mr Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Mr Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

Merched y Wawr Bro Gwili

Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Neuadd Goffa o dan lywyddiaeth Elsie Jones ar nos Lun Ionawr 19 2015. Dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau ac hefyd i'r siaradwyr gwadd sef Aneurin a Terwyn Davies, awduron y llyfr "Pen- ôl Buwch" Cafwyd noson ddifyr iawn yn eu cwmni a diolchwyd iddynt gan Mary Howell. Gaynor Morgan a Linda Jones oedd yng ngofal y te. Isod gweler fanylion o'r cyfarfodydd am Chwefror, Mawrth ag Ebrill 2015

Chwefror 16 2015

Noson a arddangos bagiau gan Valmai Davies

Mawrth 17 2015

Cawl yn Nhafarn y Rheilffordd am 6.30 yr hwyr. (Noder yr amser)

Ebrill 20 2015

Noson a arddangos Gemwaith gan Catrin Evans Thomas

Cylch Meithrin Bronwydd Addysg Blynnyddoedd Cynnar/Pre School Education

Hoffem ni yn gyntaf ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi ein cefnogi yn ddiweddar drwy ddod i'n Cyngerdd Nadolig ar y 10fed Rhagfyr, gwisgo siwmper Nadolig ac i bawb a oedd wedi rhoi cynnig ar ein cystadleuaeth, "Enwi'r Carw". Enw'r carw oedd "Cynan", a'r ennillydd oedd Miss Gwenno Rees.

Roeddem ni wedi codi £66 tuag at elusen, "Achub y Plant" trwy wisgo siwmper Nadolig, ac wedi codi £244.50 tuag at y Cylch yn y gyngerdd yn ogystal a £130 o'r gystadleuaeth, "Enwi'r Carw." Rydym yn bwriadu cynnal Cyngerdd Gwyl Dewi a bore coffi ym mis Mawrth, a byddwn yn hysbysebu yn yr ardal yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ein horiau agor yn Neuadd Bronwydd (amser tymor) yw 9.15 y.b. tan 12.00 h.d o ddydd Mawrth i ddydd Gwener, a Thi a Fi ar fore Gwener o 10.00 y.b tan 12.00 h.d. Croeso cynnes i blant bach a rhieni/gofalwyr. Am fwy o wybodaeth: 07929 431652

Heddlu

Hefyd, hoffwn gyflwyno'r cwnstabl heddlu newydd sy'n gyfrifol am yr ardal, sef PC 8 Craig Roderick, sydd newydd ymuno â'r Tîm Plismona Bro yng Nghaerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae'n derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio gwn cyflymder. Byddwn ni'n cynnal gwiriadau cyflymder ad hoc yn yr ardaloedd problemus, ynghyd â swyddogion o'r Uned Plismona'r Ffyrdd.

Ar Ddydd Mercher 6 Mai 2015, byddaf yn cynnal cymorthfeydd bît cymunedol yn y lleoliadau canlynol tu allan i'r siop yn Llanpumsaint 16.30 – 17.30

Os oes gennych unrhyw bryderon, anfonwch e-bost ataf ar martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk

Swyddog Cymorth Cymunedol / Police Community Support

Heddlu Dyfed Powys Police/Gorsaf Yr Heddlu / Carmarthen Police Station

101/Ex 25344 / 25343

Noson Cilddwrn Elusennol yn Nhafarn y Rheilffordd

Fe fydd Noson Cilddwrn Elusennol yn cael ei chynnal yn Nhafarn y Rheilffordd ar Chwefror 20 2015 am 7.00 yr hwyr gyda'r elw yn mynd tuag at Glwb Criced Bronwydd. Cilddwrn a Chyri am £10 y person. Sgitls bar yn ddewis ychwanegol. Dewch i gefnogi ac i chwarae hyd yn oed as nad ydych erioed wedi chwarae o'r blaen. Ymunwch yn yr hwyl ac i weld sut mae'r gêm draddodiadol yma yn cael ei chwarae.

Gwybodaeth gan Dŵr Cymru am y gordaliadau carthion

Roedd yn bleser gan dim Dŵr Cymru fod yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Gorffennaf i sôn wrth yr aelodau am yr ymchwiliadau sydd ar y gweill i geisio atal achosion posibl o orlifiadau a llygredd yn nalgylch carthffosiaeth Llanpumsaint.

Cyflwynodd Dŵr Cymru grynodeb o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gennym hyd yma a oedd yn canolbwytio ar:

- archwiliadau gweledol trwy'r dalgylch cyfan
- arolygon camera y tu mewn i'r garthffos gyhoeddus i ganfod ei chyflwr
- arolygon monitro llif
- archwiliadau o gysylltiadau dŵr wyneb
- arolygon o orsafoedd pwmpio
- arolygon tyllau archwilio

Cynhaliwyd yr ymchwiliadau hyn dros y 18 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod gan ein tîm ddarlun llawn o'r rhwydwaith a'r heriau sy'n ei wynebu trwy'r gwahanol dymhorau. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn canfod yr atebioin mwyaf effeithlon ar gyfer yr ardal. Yn ogystal, mae Dŵr Cymru wedi gwneud peth gwaith trwsio ar rannau penodol o'r garthffos gyhoeddus a dylai hynny helpu i leihau peth ar y gorlifiadau.

Gallwn eich sicrhau ein bod yn bwriadu gwneud rhagor o welliannau yn ein cyfnod buddsoddi nesaf. Rydym yn cytuno gydag OFWAT ar ein Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf mewn blociau o bum mlynedd. Caiff pob cynllun ei flaenoriaethu o ran y math o orlifiadau sy'n digwydd, faint o dai ac ati y mae'r gorlifiadau'n effeithio arnynt ac, i raddau llai, gost y prosiect. Rydyn ni'n dibynnu ar bobl i roi gwybod i ni am ddigwyddiadau fel y gallwn gofnodi hanes y sefyllfa yn gywir. Bydd hyn yn help i ni flaenoriaethu ein gwaith buddsoddi hefyd.

Hoffem ddiolch i'r trigolion sydd wedi cysylltu â ni i sôn am unrhyw broblemau. Mae'n hollbwysig bod y gymuned yn dal i roi gwybod i ni am orlifiadau neu lygredd neu unrhyw broblemau eraill â'r gwasanaeth ar 0800 085 3968. Yn ogystal, gall cwsmeriaid ein helpu i leihau effeithiau gorlifiadau a llygredd trwy ystyried ffyrdd o reoli'r dŵr sy'n lifo o'u cartrefi a'u hadeiladau, fel casglu dŵr glaw. Cewch ragor o wybodaeth ar ein gwefan – dwrcymru.com

Nid oes cyfranddalwyr gan Dŵr Cymru ac felly mae unrhyw elw a wnawn yn mynd yn ôl er budd ein cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd.

Newyddion Rheilffordd Ager Gwili Gorsaf Bronwydd Arms, Caerfyrddin, SA33 6HT

Dechreuodd y flwyddyn ar nodyn uchel gyda arddangosiad ein gwirfoddolwyr, yr estyniad newydd ac ein locomotifau yn yr episod De Cymru o'r gyfres deledu Michael Portillo "*Great British Railway Journeys*" a ddarllledwyd ar 26 Ionawr, 2015. Gallwch ei chipio yn *BBC iPlayer* hyd at 25 Chwefror.

Mae'r estyniad newydd ar ei ffordd i'w gwblhau gyda gosod y trac hyd at y platfform newydd yn Nghyffordd Abergwili. Nodweddir eleni hanner canmlwyddiant y trêr teithwyr cyhoeddus olaf rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin ar 25 Chwefror, 1965. Rydyn ni'n coffáu'r achlysur gyda achlysur arbennig sy'n cynnwys apêl am bethau cofiadwy rheilffordd ac eitemau y Chwe Degau ar fenthyg ar gyfer arddangosfa dros dro.

Estynnir ein Trenau Cinio Dydd Sul y tymor rhedeg hwn gyda chiniawau i ddathlu Dydd Gŵyl Sain Folant a Dydd Gŵyl Dewi. Rydyn ni wedi amlhau dyddiadau ein Te Pryn hawn Hufen gan gychwyn ar Ddydd Iau 19 Mis Chwefror adeg Hanner Tymor – wedyn bob Dydd Iau a Dydd Gwener ym Mis Gorffennaf a Mis Awst. Mae grwpiau mor amrywiol â Chymdeithasau Hanesyddol, U3A's, Sefydliadau'r Merched a Probus wedi mwynhau ein te prynhawn hufen enwog ar y trêr stêm.

Mae Gwyliau'r Pasg yn nesáu a newyddion ardderchog, bydd Bwni'r Pasg yn ymddangos yn y Rheilffordd unwaith eto. Gall y rhai sy'n hoffi popeth a fu ymuno â ni dros ein Penwythnos y 1940au ym Mis Mehefin, ein Dydd Cludiant Clasurol ym Mis Gorffennaf ac ein Gala yr Hydref ym Mis Hydref. Gwelir ymwelwyr yn dod o bell ac agos i deithio ar y trêr stêm yn ystod Gwyliau'r Haf. Dewch ymlaen â'ch ffrindiau a'ch teulu. Mae'r flwyddyn yn dod i ben ym Mis Rhagfyr gyda ein Trenau Hudol Siôn Corn sy'n dod â theuluoedd yn eu holau flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn olaf, os ydych chi'n chwilio am hobi newydd eleni, ystyriwch ddod yn wirfoddolwr yn y Rheilffordd. O adfer carejis i helpu yn yr ystafelloedd te, o waith trac a pheirianneg i gynnal a chadw cyffredinol, o ddosbarthu taflenni i werthu tocynnau yn y siop, dyma le gwych i gwrdd â ffrindiau newydd ac i helpu cadw y rhan hanfodol hon o'n treftadaeth gymdeithasol a ddiwydiannol yn gweithio er mwyn cenedlaethau i ddod. Am fanylion pellach am ein digwyddiadau a gwirfoddoli, ewch i'r wefan www.gwili-railway.co.uk,

ymwelwch â'n swyddfa neu ffoniwch 01267 238213 (Llun i Wener 10.00-1600).

Cyfnewidfa Wybodaeth Gymunedol Llanpumsaint

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynnyddol ar Ionawr 20 2015 ac fe gytunodd y canlynnol i barhau yn eu swyddi.

Cadeirydd - Carolyn Smethurst, Ysgrifennyd - Ann Pettitt, Trysorydd -Sandy Mather Pwyllgor bach gweithgar ydyn ni gyda Barry Wade, Brian Smethurst, Dave Robinson a Chris Patching hefyd yn helpu i ddosbarthu Llais y Pentref o amgylch y pentref.

Mae'r grwp yn argraffu Llais y Pentref chwech gwaith y flwyddyn a hwn fydd y 30 ain argraffiad. Rydym yn gyfrifol am wefan y pentref sef www.llanpumsaint.org.uk a hefyd gwefan y Cyngor Cymuned.

Mae'r grwp yn ddiolchgar iawn i'r tri sydd yn rhoi eu hamser i gyfieithu o'r Saeneg i'r Gymraeg a hyn er mwyn i bawb o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanpumsaint i gael Llais y Pentref yn ddwyieithog.

Rydym yn dosbarthu bron a bod i bob tŷ yn yr ardal, postio rhyw 32 i'r rhai sydd yn byw tu allan i'r pentref ac 20 yn ei dderbyn drwy e-bost.

Os y gallwch gynorthwyo ni i gynhyrchu Llais y Pentref neu i dderbyn drwy e-bost a fyddech mor garedig a chysylltu a Carolyn Smethurst fel a ganlyn - Ffôn:-01267 253308, E-bost:-carolynsmethurst@btinternet.com

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo.

Mae'r clwb yn cael tymor llwyddianus iawn hyd yn hyn ac yn yr ail safle yng Nghyngor Cymuned Cyngor Bowlio Mat Byr Sir Gaerfyrddin. Y canlyniadau hyd yn hyn yw:

Ennill 8

Cyfartal 2

Colli 4

Yn y rownd gyntaf o'r Cwpan fe gawson ni gêm adref yn erbyn Trimsaran a bydd yn cael ei chwarae ar Ionawr 26 2015. Os byddwn yn llwyddiannus byddwn yn cael gêm adref yn erbyn yr enillydd o'r gêm rhwng Meinciau a Llanboidy "B"

Mae ein nosweithiau ymarfer ar nos Lun a nos Iau am 7.30y.h tan 9.30y.h. ac mae pob gem gynghrair bob amser yn cael ei chwarae ar nos Iau . Os oes gennych ddiddordeb i ymuno a ni a fyddech cystal a chysylltu a Derick Lock, Ysgrifennyd ar 01267 253254. Ni does eisiau profiad gan bod hyfforddwyr profiadol gyda ni wrth law. Nid yw oedran hefyd yn broblem gan bod oedran ein aelodau yn ymestyn o 10 tan 85 blwydd oed.

Enwau lleoedd a'r hyd yr afon Gwili

'Does 'na'r un enw lle yn hyn nac enwau ein hafonydd. Maent yn tarddu o'r hen Frythoneg, a bydau'n syndod i sawl Sais mae o'r iaith honno y daw enw prif afon Lloegr sef Y Thames (Tafwys). Mae yna nifer o rai eraill hefyd. Felly daeth yr enw Gwili ar dafod yn yr ardal yma ymhell cyn i neb feddwl am enwau fel Llanpumsaint, Cynwil neu Fronwydd. Mae'n debyg mae ystyr Gwili yw afon hyfryd a dymunol ac nid oes lle i amau hynny. O'i tharddiad yng nghoedwig Brechfa uwchben Llanllawddog, drwy Bontarsais i lawr i Lanpumsaint, yna ar ystum drwy'r cwm cudd tua Chynwyl, cyn agor tua Bronwydd, a phrysuro i'w therfyn yn Abergwili, mae hon yn afon gyfeillgar yn unol â'i disgrifiad.

Ar hyd ei thaith bedyddiwyd sawl trigfan, boed fwthyn neu blasty, gyda'i henw ar hyd y canrifoedd. Ble arall gethech chi enw mor brydferth â Nantcwmgwili a hwnnw'nadlewyrchu golygfa fendifedig? Mae dau brif blasty'r gwyr mowr yn yr ardal yn cario ei henw. Y cyntaf oedd Plasty Cwmgwili, yn dyddio o'r 15fed ganrif, lle mae'r teulu Philipps yn dal yno (nid camsillafu, mha nhw moin dwy P). Plas Cwmgwili ger eglwys Llanllawddog yw'r ail, cartref y Llwydiaid o'r 16eg ganrif hyd 1972, (cyn hynny 'roeddent yn Ystradcorrwg). Wedyn pan ddaeth y chwyldro diwydiannol a'r rheilffyrdd yma i borthi'r busnes gwlân, sefydlwyd ffatrioedd, megis Melin Cwmgwili yn Llanpumsaint a melyn Gwili Lan a ffatri Cwmgwili ym Mronwydd. Adeiladwyd rhes o dai ger capel Bethel Llanpumsaint, Gwili Teras, ac agorwyd siop wedyn yng Ngwili Vale. Yna rhyw hanner milltir i'r gogledd ar hewl y Bryn mae enw tŷ Uwchwili yn dynodi'n glir nad oes perygl llifogydd yma.

Ond o fynd yn ôl lan yr afon tua'r dwyrain o'r pentref down at fferm Glangwili. Credwch neu beidio bu yma blasty ac ystâd nol yn yr 16eg ganrif, ac mae yna ddogfennau i brofi hynny. Mwyâ'r siom felly i nodi fod haerllugrwydd Seisnigeiddio wedi dileu'r enw erbyn hyn. Wedi gadael Llanpumsaint rhed y Gwili drwy gwm Tredarren i guddfannau dedwydd tawel, cyn cyrraedd hen orsaf Cynwil lle mae'n croesawu'r Dued. Yma daw rhagor o enwau megis Dolgwili a Thirgwili, a phan wel ein hafon ragor o olau dydd wrth ymlwybro mas i ddyffryn Bronwydd, gwelwn fferm Glangwili arall ar lethr gerllaw. Diolch fyth, cadwodd hon ei henw!

Diddorol gweld fod yr afonydd llai a'r nentydd, sy'n bwydo'r Gwili, hefyd yn cael eu hanrhodeddu ar enwau ffermydd a thai. I gychwyn yng nghwm Llanllawddog mae Ystradcorrwg (cartref y Llwydiaid cyn symud i blasty Glangwili) yn cario enw'r afon Corrwg, sy'n golygu nant fechan. Mae tarddiad y Boncath (yr aderyn boda) yn ardal Alltwalis, ond cyn iddo gael ei llyncu gan y Gwili llifa heibio i Lanboncath, ger Penrhewlgam (bu yma ffatri wlân unwaith). I lawr i Lanpumsaint ac yno gwelir Gerwyn Villa ac yn ddiweddar Tŷ Nant Cerwyn yn coffau dŵr gwylt y nant honno'n tywallt o byllau'r Saint. Mae melyn Glanyryns a'r ystâd dai diweddar o'r un enw yn ein hatgoffa mae Ynys yw enw'r nant sy'n llifo heibio. Cyn i'r Dued ymuno a'r Gwili ger hen orsaf Cynwil mae Cwmduad a Blaendued yn datgelu ei llwybr. Ystyr Dued yw afon dywyll, daw o dir mawn.

Drwy gydol amser mae dynoliaeth wedi addoli a pharchu ein hafonydd, a mabwysiadu eu henwau ar safleoedd byw, ac maent yn dal i wneud hynny. Sylwch ar enwau rhai o'n tai'r dyddie hyn! Mae Bryngwili - Sŵn y Gwili - Dyffryn Gwili - Berllan Gwili - i gyd yn datgan eu balchder o'r cysylltiad. Wedi i Reilffordd Brydeinig roi'r ffidil yn y to yn y 1960degau, daeth Rheilffordd Gwili i gynnig anadl newydd i'r cwm. A phan sylweddolodd yr awdurdodau o'r diwedd fod -Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru Caerfyrddin - yn llond pen diflas diwerth, dyma nhw'n cytuno a'r hyn oedd ar lafar gwlad bob dydd . Ie! Ysbyty Glangwili!

Arwlyn 2015

Village Voice

February 2015

Copy Date for next Edition 25th March 2015

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Wednesday Steak Night at the Railway 01267 253643

| Every Monday and Thursday 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

February 11 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

February 14 Saturday 10 –12 Plant Dewi Coffee Morning St Peters Hall Carmarthen

February 20 Friday 50th Anniversary Day Gwili Railway

February 20 – 22 Gardening Weekend 10.30 – 4.00 Tyssul Hall Llandysul

February 20 Friday 7.00 Tippit and Curry Night Railway Inn

February 20 Friday 7.30 Allotment Association AGM Memorial Hall

February 22 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

February 22 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

February 23 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

February 26 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

February 28 Saturday 7.30 Swing Boyz Music and Food Memorial Hall

March 3 Tuesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

March 7 Saturday 10.30 Village Litter Pick start at Memorial Hall

March 11 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

March 12 Thursday 1.00 Foot Care Clinic Memorial Hall

March 13 Friday Fundraising Event for the Church – See Details on Posters

March 19 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

March 23 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

March 28 Saturday 7.30 Evening with Clive Edwards Memorial Hall

March 29 Sunday 1.45 West Wales Dowsers AGM Bronwydd Hall

March 29 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

April 3 – 6 Weekend Easter Bunny at Gwili Railway
April 7 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall
April 11 Saturday 11.15 Walk starting at Solva
April 15 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643
April 16 Thursday 7.30 Llanpumsaint Choir at Christ Church Carmarthen
April 17 Friday 60+ Club Concert Bronwydd Hall (details later)
April 22 Wednesday Fashion Show Memorial Hall – details next Village Voice
April 23 Thursday 8.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn
April 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall
April 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Bronwydd

*Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365*

Sustainable Llanpumsaint/Allotment Association

The AGM has been arranged for Feb 20th, 7.30, at the Memorial Hall. We are hoping for a good turnout, it's an opportunity to pay subs (woohoo), and also to have a chat about ideas that anyone may have for the next season. Or if anyone wants to do something but doesn't know how, or needs help with anything? If you are thinking about taking on an allotment, then come along and meet the allotmenteers, and hear how you can be involved.

If you can't make the AGM and would like to get involved, please contact Bob Conyard (01267 253119) or Philip Jones (01267 253512)

Railway Inn Charity Tippit Night

There will be a Tippit Night at the Railway Inn on 20th February from 7.00pm, in aid of Bronwydd Cricket Club. Tippit and Curry £10.00 per person. Bar skittles optional extra!

Come along and see if you can beat all-comers – if you have not played Tippit before, come and see how this traditional Welsh game is played and join in the fun!

Llanpumsaint and District Choir

After a well -earned rest over the Christmas period rehearsals have re-commenced at the Community Hall at Cynwyl Elfed. Currently we are preparing for a performance of Olivet to Calvary by J.H.Mauder. This will be held in Christ Church in Carmarthen on Thursday evening, April 16 2015 at 7.30p.m. Further details to follow. The proceeds will go to a chosen charity. Currently there are approximately 60 members in the choir but if you are interested in joining please contact the conductor Gwyn Nicholas on 01267 253686 or any choir member. You are assured of a warm welcome.

Planning Applications in Llanpumsaint –

W/31268 Penrhiwfach, Llanpumsaint, SA33 6LX – Proposed change of use of land to construct ménage adjacent to garden area.

W/31287 Afallom, Llanpumsaint, SA33 6BU Extension to dwelling – granted

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall

Readers of Village Voice are reminded to make the following note in their diaries :-

Saturday 28th March 7.30pm – An evening with Clive Edwards.

This local entertainer is always popular, with his singing and anecdotes – more information and tickets will be available shortly, so look out for the posters nearer the date.

A Fashion Show hosted by Nannette's Kidwelly in the Memorial Hall on Wednesday 22 April 2015. Further details to follow.

A NIGHT OF GOOD FOOD AND LIVE MUSIC

“The Swing Boyz” are back at the Memorial Hall on SATURDAY 28TH FEBRUARY

See below excerpts from the glowing review of last year’s event!

